Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 11eg , Ebrill, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.10 pm

Presennol: Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies
Mr Roger Phillips Clerc y Dref, Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid, Mr Des Davies, Swyddog Technegol.
Ymddiheurodd y Cyng Pam Steane Price ei bod wedi cyrraedd yn hwyr.

Ymddiheuriadau : Dim

Cof 9 / Ebrill / 07 Anfonebau i'w talu.

Penderfynwyd talu'r anfonebau canlynol

David Siggery (gweddill yr arian)	£ 112.88, Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns, eiliwyd gan y Cyng Roy Davies.
Viking Direct (Deunydd Swyddfa)	£ 143.90, Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace, eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns.
PC World (Cluniadur y Clerc)	£ 610.92 Cynigiwyd gan y Cyng Dawn Wallace, Eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns.

Cof 10 /Ebrill /07 Incwm a Dderbyniwyd Mawrth 2007

Hysbysebu'r Tân Gwyllt	£ 450.00
Archaeoleg Cambria (rhan daliad)	£ 55.00
Llog cyfrif cyfredol	£ 1.79
Llog Cyfrif Cynilo	£ 19.38

Cof 11 / Ebrill / 07 Balansau'r Cyfrifon
Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol o gyllid y Cyngor:
Trosglwyddwyd swm o £35,000 o'r cyfrif cyfredol i'r cyfrif cynilo.

LTC CYFRIF CYFREDOL (28.3.07)	£ 8,154.73
LTC CYFRIF CYNILO (29.3.07)	£ 37,982.66
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.03.07)	£ 600.06

.

Cof 12 / Ebrill / 07 Materion Ariannol Eraill

1. Adnoddau Swyddfa a Staff.
Mae cluniadur wedi'i brynu i'w ddefnyddio gan y Clerc.

2. Adroddiad ar y Gyllideb tan Fawrth 31ain, 2007.
Darparwyd adroddiad drafft gan y Swyddog Cyllid o gyfrifon diwedd y flwyddyn.
Cyfanswm yr incwm ar gyfer y Flwyddyn 2006-7 oedd £157,724.03

3. Hawliad TAW 2006-7
Adroddodd y Swyddog Cyllid ei fod yn cyflwyno hawliad TAW am £17,502.31 ar ran y Cyngor.

4. Cofrestr Asedau
Argymhellodd y Cyng Colin Jenkins y dylai pob peth a brynwyd yn sgil atgyweirio Neuadd y Sir gael eu rhoi ar y gofrestr asedau.
Mae'r Llungopïwr a'r cluniadur newydd i'w cynnwys. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn.

5. Rhagolwg Tair Blynedd ar gyfer y Gyllideb.
Adroddodd y Swyddog Cyllid nad oes unrhyw newidiadau arwyddocaol wedi digwydd yn ddiweddar a chynigiodd y dylid gadael y rhagolygon newydd hyd nes y bydd y cyfrifon diwedd blwyddyn wedi'u cwblhau.

Cof 13 / Ebrill / 07 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. LlCC- Gwybodaeth parthed cymeradwyo benthyciadau yn y dyfodol.
Clerc i ateb, gan nodi nad yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud cais am fenthyciad eleni.
2. Hysbysiad CSC o Daliadau Ynni Llwybrau Troed o £859.03 ar gyfer.

3. Clwb Bowls Llandeilo. Cais am rodd er mwyn cynorthwyo i dalu am eu Llawlyfr Pen-blwydd yn 75. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid rhoi £75. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace.

Cof 14 /Ebrill / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â lansio'r gwaith atgyweirio sydd wedi'i wneud i Neuadd y Sir. Gobeithiwyd y byddai'n bosib i arian grant dalu am rywfaint o gost y lansiad.
Argymhellodd y Cyng Hugh Towns y dylai'r Cyngor dalu Archaeoleg Cambria am eu gwasanaeth proffesiynol wrth gynnal y lansiad ac am ddarparu deunyddiau arddangos ar gyfer y Cyngor Tref yn ystod y lansiad o Neuadd y Sir. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Ieuan Gwyn.
Cafwyd pleidlais o blaid y taliad gyda 4 pleidlais i 2 bleidlais.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20pm.